| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Mehefin 2015** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio**<br>**Y Cyng. Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Heidi Gray**<br>**Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Perfformiad Cynllun Corfforaethol Chwarter 4 - 2014/15** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r papur yn cyflwyno diweddariad ar gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 4 o 2014/15.

1.2 Mae Atodiad 1 yn cynnwys yr adroddiad chwarterol llawn a gynhyrchwyd gan System Rheoli Perfformiad Verto.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen i'r Cyngor ddeall pa gynnydd sy'n digwydd wrth gyflawni deilliannau'r Cynllun Corfforaethol. Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.

2.2 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd, yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn i nodi meysydd gwasanaeth penodol (neu feysydd gwaith) a fyddai'n elwa o archwilio manwl i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a pherfformiad cyffredinol y Cyngor, ac i hwyluso cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 (2014-15) (Atodiad 1) yn edrych ar y Cynllun Corfforaethol 2012-17, y Gofrestr Prosiectau Corfforaethol, a'r Cytundeb Canlyniadau 2013-16 ac yn darparu asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa bresennol.

4.2 Mae nifer o ddangosyddion a mesurau wedi'u hamlygu fel 'Coch' o fewn yr adroddiad. Mae hyn yn golygu eu bod wedi'u nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' neu lle mae problem o ran y data y mae angen ei godi.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am ein cynnydd wrth gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol, a sicrhau'r setliad Cytundeb Canlyniadau llawn. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus o'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn amlinellu faint o arian yn ychwanegol y mae'r cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Ar wahân i'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw, cymerir yn ganiataol y gellir cyflawni'r cynllun corfforaethol o fewn y cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1. Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen asesu'r adroddiad hwn ymhellach gan na fydd yr argymhellion ynddo yn cael effaith uniongyrchol ar ein staff a'n cymunedau.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1. Daw'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gynhyrchu'r adroddiad hwn o'r gwasanaethau, a'r drafft a ddosbarthwyd i alluogi'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gymryd unrhyw gamau unioni maen nhw'n credu sy'n angenrheidiol er mwyn cynhyrchu'r adroddiad hwn. Cyflwynwyd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 11 Mehefin 2015.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae gennym fframwaith rheoli perfformiad cadarn, proses Herio Perfformiad Gwasanaethau gadarn a Phwyllgor Archwilio Perfformiad cryf.

10.2 Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a’r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai’r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yn amlinellu rôl y swyddogaeth graffu o ran monitro a rheoli perfformiad.

**Swyddog Cyswllt:** Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol, Rhif Ffôn: 07795 334836